

CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 16eg Mai 2018 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, gan ddechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd A. R. James (Maer)

Y Cyngorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms M. V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas a Miss C.L. Williams.

Gareth Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus - Dirprwy Glerc y Dref

1. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Ar ran Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood, dechreuodd y Parchedig Juliet Fraser y cyfarfod drwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cyngorwyr J. A. Ball, Mrs J. Chamberlain-Jones a Mrs P. M. Jones.

2. ETHOL MAER A'I SEFYDLU

Siaradodd y Cyngorydd James yn fyr am ei flwyddyn yn y swydd a pha mor anodd oedd dewis uchafbwyntiau pan roedd y digwyddiadau a fynychwyd ganddo mor amrywiol a phob un yn werth chweil ynddo'i hun.

Os oedd yn rhaid iddo ddewis, cyfeiriodd at ei Sul Dinesig a gwasanaethau Sul y Coffa, y Sioe Awyr wych a Dydd Calan Mai y Maer yn ddiweddar.

Roedd y Cyngorydd James yn falch o gyhoeddi iddo godi ychydig dros £2,000 i Gymorth Canser Macmillan a gwneud cyfraniadau i fanc bwyd Canolfan Gymunedol Foryd werth ychydig dros £500.

Diolchodd y Cyngorydd James i'w gyd-gyngorwyr a staff y cyngor am eu cymorth dros y 12 mis nsaf a diolchodd i'w Faeres, y Cyngorydd Mrs Win Mullen-James, ei Gaplan, y Parch Andy Grimwood, a'i deulu a'i ffrindiau am eu cymorth, na fyddai wedi medru gwneud hebddynt.

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer swydd Maer ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2018/2019.

Cynigiwyd gan y Cyngorydd P. Prendergast ac eiliwyd gan y Cyngorydd Ms J. McAlpine bod y Cyngorydd Mrs W. M. Mullen-James yn cael ei henwebu.

PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Mullen-James.

Yna sefydlodd y Cyngorydd James y Cyngorydd Mullen-James gyda chadwyn y swydd a'i gwahodd i ddarllen yn uchel ac yna llofnodi'r datganiad swydd.

Diolchodd y Maer i'w chynigiwr a'i heilydd am eu henwebiadau a'u geiriau caredig a chadarnhaodd mai ei Maeres fyddai ei merch Ms Catherine Patterson a bod y Parch. Andy Grimwood yn garedig wedi cytuno bod yn Gaplan iddi am y flwyddyn i ddod. Dywedodd y Cyngorydd Mullen-James mai ei thema ar gyfer y flwyddyn i ddod fyddai cydraddoldeb, tegwch, caredigrwydd a meithrin cymunedau i fod yn falch ohonynt.

Elusennau'r Cynghorydd Mullen-James fyddai Canolfan Merched Gogledd Cymru yn y Rhyl a changen Glan Clwyd Sefydliad Prydeinig y Galon.

Yna sefydlodd y Cynghorydd Mullen-James y Faeres gyda bathodyn y swydd a chyflwyno blodau iddi.

Ar ran y Cyngor Tref, diolchodd y Cynghorydd Mullen-James i'r Maer a oedd yn ymdeol am ei wasanaeth dros y 12 mis diwethaf a'i gyflwyno gydag arbais y dref a medal ddinesig.

Diolchodd Clec y Dref i'r Cyngforydd Mullen-James am ei gwasanaeth fel Maeres dros y 12 mis diwethaf a chyflwyno blodau iddi.

3. DEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972, ADRAN 86 – DATGAN SWYDD WAG AR GYFER SWYDD CYNGHORYDD CYMUNED AR GYFER WARD DERWEN

Ar ôl ymddiswyddiad Miss Ellie Jones, cyhoeddodd Clerc y Dref yn ffurfiol swydd wag ar gyfer Cynghorydd Tref yn ward Derwen.

Byddai hysbysiadau yn cael eu harddangos yn y ward, ar hysbysfwrdd Canolfan Gymunedol Wellington a'u cyhoeddi ar wefan tref a thudalen Facebook y Cyngor Tref ar ddydd Gwener 18fed Mai i ofyn i 10 Etholwr Llywodraeth Leol ward Derwen i gyflwyno ceisiadau ysgrifenedig am etholiad i lenwi'r swydd wag. Fel arall, byddai angen i'r cyngor gyfethol i lenwi'r swydd.

PENDERFYNWYD cydnabod yr wybodaeth.

4. ETHOL DIRPRWY FAER

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer ethol Dirprwy Faer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018/19.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams bod y Cynghorydd Mrs Ellie Chard yn cael ei henwebu.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Chard.

Sefydlodd y Maer y Cynghorydd Chard gyda Chadwyn y Swydd a'i gwahodd i lofnodi'r Datganiad Swydd.

Wedi gwneud hyn, diolchodd y Dirprwy Gaer i aelodau'r Cyngor am eu henwebiadau a dywedodd mai ei Dirprwy Gyfar fyddai ei gŵr Mr Dudley Chard.

Sefydlodd y Maer y Dirprwy Gyfar newydd ei benodi gyda Bathodyn y Swydd.

5. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 21ain Mawrth 2018 - Rhifau Cofnod 132-142

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir

Pwyllgor Cynllunio - 21ain Mawrth 2018 - Rhifau Cofnod 57-59

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 4ydd Ebrill 2018 - Rhifau Cofnod 60-62

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 2il Mai 2018 - Rhifau Cofnod 63-66

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid - 4ydd Ebrill 2018 - Rhifau Cofnod 131-146
a Dibenion Cyffredinol

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

Pwyllgor Cyllid - 2il Mai 2018 - Rhifau Cofnod 147-161
a Dibenion Cyffredinol

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Councillor B. Mellor ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

6. PENODI RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS

Ymhellach i gofnod rhif 112 Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 7fed Chwefror 2018, cyhoeddodd y Maer yn ffurfiol bod Mrs Elaine Shirley Williams wedi ei phenodi ac y byddai'n derbyn tystysgrif ac arfbais y dref mewn cyfarfod o'r Cyngor i'w gynnal ar 20fed Mehefin.

PENDERFYNWYD cydnabod y cyhoeddiad.

7. **PENODI PWYLLGORAU/IS-BWYLLGORAU/LLYWODRAETHWYR YSGOL AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2018/19**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r penodiadau a nodwyd yn atodiad 1.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast ac fe **BENDERFYNWYD** cymeradwyo'r penodiadau.

8. **ETHOL CADEIRYDD – PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL**

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018/2019.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James y dylid penodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford .

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Rutherford.

9. **ETHOL IS-GADEIRYDD – PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL**

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018/2019.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J Butterfield YH MBE ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James y dylid penodi'r Cynghorydd B. Mellor.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Mellor.

10. **ETHOL CADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018/2019.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P Prendergast ac eiliwyd gan y Cynghorydd K. R. Jones y dylid penodi'r Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Mullen-James.

11. **ETHOL IS-GADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018/2019.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J Butterfield YH MBE ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Chard y dylid penodi'r Cynghorydd Ms J. L. McAlpine.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Mellor.

12. **ETHOL CADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL**

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018/2019.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J Butterfield YH MBE ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King y dylid penodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Rutherford.

13. **ETHOL IS-GADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL**

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018/2019.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard y dylid penodi'r Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Mullen-James.

14. **PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r penodiadau a nodwyd yn atodiad 2.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley a **PHENDERFYNWYD** cymeradwyo'r penodiadau.

15. **DYNODI DYLETSWYDDAU A GYMERADWYWYD**

Gofynnodd y Maer am gadarnhad bod presenoldeb gan gynrychiolwyr a benodwyd yn y canlynol:

- Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Sir Ddinbych Gynaliadwy
- Hyfforddiant i Gadeirydd ac Is-gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau Sefydlog

yn cael eu dynodi fel dyletswyddau cymeradwy.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac fe **BENDERFYNWYD** bod y dyletswyddau cymeradwy yn cael eu cadarnhau.

16. **ATODLEN CYFARFODYDD**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r atodlen o gyfarfodydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018/19 fel y nodwyd yn atodiad 3.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast ac fe **BENDERFYNWYD** cymeradwyo'r atodlen.

17. LLOFNODWYR

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r llofnodwyr ar gyfer cyfrifon cyfredol a buddsoddi'r Cyngor ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2018/2019.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd K. R. Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams bod y llofnodwyr yn cael eu cadarnhau fel a ganlyn:

Y Maer a'r Dirprwy Faer fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor Llawn
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol

Ynghyd ag un o'r swyddogion canlynol:

Clerc y Dref
Dirprwy Clerc y Dref

Y Swyddog Cyllid

PENDERFYNWYD cadarnhau'r llofnodwyr.

18. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, datganodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:

Dyddiad:.....